Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Polisi Digwyddiadau'r Cynulliad

Caiff digwyddiadau ac arddangosfeydd eu cynnal ar ystâd Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn cyflawni diben, nodau ac amcanion y Cynulliad ac, yn benodol, er mwyn cefnogi Aelodau'r Cynulliad, codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o waith y Cynulliad a'u hannog i gyfrannu ato, ac er mwyn inni ymwneud mwy â'r cyhoedd.  Rhaid i bob digwyddiad neu arddangosfa gael ei noddi gan un o'r Aelodau neu gan grŵp o Aelodau (e.e. pwyllgor neu grŵp trawsbleidiol).

## Lleoliad digwyddiadau ac arddangosfeydd

Caiff digwyddiadau neu arddangosfeydd eu cynnal mewn tri phrif leoliad ar ystâd y Cynulliad: y Senedd, y Pierhead a Siambr Hywel. Y Tîm Digwyddiadau fydd yn penderfynu ar y lleoliad mwyaf addas ar gyfer eich digwyddiad chi ar ôl gweld yr holl wybodaeth a nodir ar y ffurflen ddigwyddiadau.

## Y broses gynllunio

Tîm Digwyddiadau'r Cynulliad sy'n gyfrifol am roi cyngor ynghylch y broses o gynllunio a chymeradwyo'r holl ddigwyddiadau / arddangosfeydd ac am sicrhau bod y broses o'u cynnal yn cael ei rheoli'n effeithiol.

Mae'r meini prawf penodol i'w hystyried ar gyfer pob digwyddiad i'w gweld isod.

## Meini prawf ar gyfer cymeradwyo digwyddiadau ac arddangosfeydd

- rhaid iddynt gael eu noddi gan Aelod unigol, grŵp o Aelodau, grŵp trawsbleidiol, pwyllgor neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru;
- rhaid iddynt fodloni amodau a thelerau'r Cynulliad;
- rhaid iddynt fod yn wleidyddol ddiduedd a chyflwyno barn gytbwys.

Yn ogystal â hyn, rhaid i'r digwyddiad / arddangosfa fodloni o leiaf un o'r meini prawf a ganlyn:

- hybu a datblygu ymwybyddiaeth y cyhoedd o waith y Cynulliad a/neu'r prosesau democrataidd a'u hannog i ymwneud mwy â'r rhain;

Neu

- cynnig llwyfan i ddylanwad Cymru gartref a thramor;

Neu

- hyrwyddo digwyddiadau / pen-blwyddi ac iddynt arwyddocâd hanesyddol, cyfansoddiadol neu ddiwylliannol sydd â chysylltiad amlwg â democratiaeth a / neu hanes / rôl neu waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru.